**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**19 Awst 2022**

09:00 – 1300

Lleoliad: Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry, Alexia Course a Peter Strachan.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan a David O'Leary.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Marie Daly

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb yno.

**1c. Datganiadau Diddordeb**

Dim wedi'i ddatgan.

**2a. Sylw i Ddiogelwch**

Ychydig iawn mae staff wedi defnyddio'r camerâu corff. Bydd ymgyrch 'tawelu meddwl' yn dechrau cyn bo hir gan bwysleisio nad yw'r camerâu'n cael eu defnyddio i fonitro staff ac mai dim ond i gefnogi erlyniadau y bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio. Mae harneisiau personol yn cael eu darparu ochr yn ochr ag ymgyrch chwalu mythau.

**2b. Sylw i Gwsmeriaid**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r cynllun Rheoli Refeniw a Phrynu Tocynnau Advance ar y Diwrnod (APOD) gan gynnwys adfer dulliau rheoli refeniw deinamig a bod POD ar gael hyd at bum munud cyn i gwsmeriaid gychwyn.

**3. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheilffyrdd TrC ar 22 Gorffennaf 2022 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**4. Adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr**

Hysbyswyd y Bwrdd bod penodi Cyfarwyddwr Llwybrau dros dro ar gyfer Network Rail Cymru wedi rhoi cyfle i ddatblygu dull newydd o wella perfformiad trenau ar draws y system gyfan. Cytunwyd ar y dull newydd rhwng TrC, Network Rail Cymru ac AIW ddiwedd mis Gorffennaf, ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth Perfformiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd hefyd am ddatblygiad y cynllun perfformiad 'personol cwmnïau trenau eraill' sy'n seiliedig ar bum egwyddor sylfaenol: (1) sicrhau bod y cynllun trenau yn gadarn, gan daro'r man perffaith rhwng bod yn uchelgeisiol a bod yn wydn; (2) sicrhau bod digon o gerbydau rheilffyrdd y gellir eu defnyddio i gyflawni'r cynllun trenau; (3) sicrhau bod digon o griw trenau i gyflawni'r cynllun trenau; (4) gwneud y gorau o gapasiti i leihau gorlenwi rhagweladwy; a (5) rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, tresmasu a ffactorau allanol eraill.

Trafododd y Bwrdd y cerbydau sydd ar gael, yn enwedig unedau 175 a cherbydau MKIV gan ofyn, [redacted]

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod y sefyllfa gyda hyfforddiant gyrwyr a goruchwylwyr yn parhau i wella yn unol â'r cynllun adnoddau tymor hir, ond bod cael gyrwyr ar y Sul yn dal yn broblem sylweddol [redacted]

Mae'r cynllun optimeiddio capasiti yn parhau i weithredu yn ystod yr haf gan gryfhau, lle bo'n bosibl, y defnydd o fysiau wrth gefn sydd wedi'u lleoli'n strategol, a mesurau lliniaru i gwsmeriaid drwy gynllun deg pwynt i gwsmeriaid. Nododd y Bwrdd fod y rhan fwyaf o gyfnodau brig y gorlenwi yn cael eu hachosi gan streiciau gyrwyr mewn cwmnïau trenau eraill a phrinder criwiau trenau yn y cwmnïau hynny ar ddiwrnodau heb fod yn ddiwrnodau streic.

Nododd y Bwrdd hefyd fod cynlluniau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, pobl ifanc yn ymgynnull, a mathau eraill o niwsans ar y rheilffyrdd yn parhau i leihau'r achosion sy'n cael eu cofnodi, yn enwedig yn y mannau problemus hysbys yng Nghymoedd Caerdydd. Fodd bynnag, mae'r problemau hyn yn dal i achosi oedi.

Effeithiwyd ar y cyfnod gan dywydd poeth gyda rhybudd coch gwres eithriadol gan y Swyddfa Dywydd ar gyfer 18 a 19 Gorffennaf. Rhoddwyd cyfyngiadau cyflymder ac fe gafodd hyn effaith andwyol ar berfformiad trenau, gyda'r gwasanaeth ar ei wannaf yn ystod y diwrnodau poethaf. Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth am unrhyw effaith bosibl gwres eithafol ar yr unedau newydd [**Gweithredu Alexia Course**].

Nododd y Bwrdd fod lefelau teithio heb docyn wedi cynyddu, a gofynnodd a oes modd gwneud mwy am hyn. Hysbyswyd y Bwrdd bod Strategaeth Diogelu Refeniw yn cael ei datblygu, ac nad oedd yn ymddangos bod unrhyw resymau penodol dros y cynnydd. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r Arolwg Teithio heb Docyn yn fesur gwell, a bod perygl nad yw'r ffigurau'n dangos y sefyllfa gyfan ar hyn o bryd. Nododd y Bwrdd hefyd y gallai datblygu system Talu-Wrth-Deithio gynnig gwell cyfleoedd i bobl allu talu'n haws.

**5a. Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Nododd y Bwrdd gynnwys yr Adroddiad Sicrhau Diogelwch.

**5b. Adroddiad risg rheilffyrdd**

Nodwyd yr adroddiad.

**6. Diweddariad masnachol**

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**7. Cyfrifon Rheoli**

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Gadawodd Andy Quinton y cyfarfod.

**8. Ail-lunio amserlen mis Rhagfyr 2022**

[redacted]

[redacted]

**9. Setliad masnachol CAF**

[redacted]

[redacted]

[redacted]

- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]

[redacted]

[redacted]

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau.